# O’r galon

## Yr awr hon y mae yn aros … ffydd

Awgrymais y tro diwethaf fod meddyginiaeth i’r galon friwedig yn yr adnod ganlynol: ‘Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a’r mwyaf o’r rhai hyn yw cariad.’ (1 Corinthiaid 13:13 BWM)

### Pileri

Yn ei chyd-destun, ergyd ganolog neges Paul i’r Corinthiaid oedd nad oeddynt wedi amgyffred beth oedd hanfod gwir gariad. Ond sylwch, yn wahanol i’n hoes ni sydd wedi ffoli ar eiriau’r Beatles, ‘All you need is love’, mynna Paul fod tri pheth yn aros gyda’i gilydd: ffydd, gobaith a chariad. Ac nid tair colofn yn sefyll ar wahân ydynt. Yn hytrach, tri philer ydynt sy’n cydweithio i’r un diben, megis y dywedodd Paul wrth y Philipiaid (1:6): ‘yr wyf yn sicr o hyn, y bydd i’r hwn a ddechreuodd waith da ynoch ei gwblhau erbyn Dydd Crist Iesu.’

### Ysbrydoledd neu ffydd?

Beth feddyliwch chi yw ffydd? Ai teimlad ydyw? Mater o wybodaeth, neu o gadw arferiad? Ai rhywbeth cyson fel curiad calon sydd ‘jyst yna’ ydyw? Ydy o’r un peth ag ‘ysbrydoledd’ (spirituality) amwys ein hoes ni heddiw – yn ysbrydoledd annelwig, nad yw’n gofyn am fawr o ymdrech ar ein rhan i’w fynegi, yn wir, yn rhywbeth y dylem geisio osgoi ei esbonio neu ei ddeall?

### Ffydd

Nid ysgrif ddiwinyddol ddiffiniadol mo hon; mae llawer mwy cymwys i’n goleuo ar holl ddyfnder beth yw hanfod ‘ffydd’ Gristnogol. Yn hytrach, ymgais yw hon i fwrw golau ar sut mae ffydd (ac fe ddown eto at obaith a chariad) yn gweithio yn




Llun: Trwy ganiatâd Siop Cwlwm, Croesoswallt, www.siopcwlwm.co.uk/products/hand-made-ceramic-heart-ffydd-gobaith-cariad

ein calon, yn ein meddwl, yn ein henaid, yn ein hysbryd a’n byw o ddydd i ddydd.

### Hanfod ffydd

Cymorth mawr yn hyn o orchwyl yw edrych ar y prif eiriau yn y Beibl a gyfieithir gan ‘ffydd’. Yn yr Hen Destament geiriau sy’n cario’r ystyr ‘bod yn driw, ymddiried, bod yn gywir, yn ffyddlon’ a welwn, e.e. Salm 146:6, Eseia 26:2; Habacuc 2:4. Fe ddeallwn o hyn nad dim ond gweithred o ‘gredu mewn rhywbeth’ yw ‘ffydd’. Yn hytrach, mae’n berthynas o ddyfalbarhad, o argyhoeddiad, o gywirdeb yr hyn a gredir; yn wir, mae’n argyhoeddiad am yr Un y credir ynddo, h.y. y mae ffydd yn AROS.

Yn y Testament Newydd cawn fod ‘pistis’ yn cario’r ystyr o ffydd, o gredu, o ymddiried, e.e. Marc 2:5, 4:40, 10:52; Rhufeiniaid 1:17, 3:22–31; Effesiaid 2:8, 3:12,17. Cofiwch, gyfeillion, nad yw ‘ffydd’ yn y Testament Newydd o ansawdd gwahanol i’r hyn a welwn yn yr Hen Destament. Yn hytrach, deallwn fod natur yr hwn yr ydym yn credu ynddo ac yn ymddiried ynddo yn driw, yn gywir, yn ffyddlon ac yn dyfalbarhau.

### Cyfamod

Yn hyn o beth mae deall natur perthynas gyfamodol yn gymorth i ni. Nid mynegiad o sut rwy’n teimlo ar y funud neu ‘faint’ fy ffydd, pa mor bositif yw fy agwedd, neu a oes gen i deimladau cariadlon, cynnes, *fuzzy* yw hanfod ffydd. Na, ymrwymiad ar sail perthynas ydyw – ymrwymiad na ddylid mynd iddo yn ysgafn, ymrwymiad sy’n parhau waeth beth yw fy nheimladau a’m hamheuon ar y pryd.

Yn bwysicach oll, prif weithredwr y cyfamod yw Duw ei hun, ac y mae ei holl briodoleddau dwyfol y tu cefn i’r cyfamod a wnaed.

Felly, pan ddywed Iesu ei fod yn sefydlu cyfamod newydd drwy ei waed, nid darlun ydyw, ond mynegiant o’r berthynas dragwyddol y mae’n ein gwahodd i fod yn rhan ohoni. Y mae ffydd yn AROS.

Ac, wrth gwrs, mae Iesu ei hunan wedi cyflawni holl oblygiadau’r cyfamod drwy ei fywyd, ei ufudd-dod, ei aberth a’i atgyfodiad, ac mae’n awr yn eistedd, wedi cyflawni ei waith, ar ddeheulaw’r Tad mewn gogoniant. Ein braint ni yw mwynhau’r cyfan y mae ei fuddugoliaeth wedi ei ennill ar ein cyfer mewn perthynas ag Ef. Y mae ffydd yn AROS.

Mi fydd gen i fwy i’w ddweud am ffydd a’r galon y tro nesaf, ond am y tro rwyf am awgrymu ein bod yn darllen 1 Corinthiaid 13 ac yn gweld bod y cyfan a ddywedir am gariad yr un mor wir am ffydd, a gobaith hefyd.

*Hywel Rhys Edwards*

# Noson o Fawl

Sul, 19 Mawrth, daeth cynulleidfa o aelodau a ffrindiau Dosbarth yr Arfordir, Henaduriaeth Myrddin, at ei gilydd i gapel Bethel, Pen-bre, i fwynhau noson o ganu cynulleidfaol, a chodi arian at elusen Hadau Gobaith.

Dewiswyd hoff emynau gan gyfranwyr, a chyflwynwyd eu harwyddocâd i’r unigolyn, cyn eu canu’n ystyrlon gan y gynulleidfa.

Bu’n oedfa hyfryd a bendithiol, yn ogystal â chyfle i gefnogi achos da.

*Elinor Wyn Nicholson*




Yr arweinydd oedd Mrs Helen Gibbon, Caerfyrddin, a’r organydd oedd Mr Colin Beynon, Pontiets. Y Parch Ian Sims, gweinidog y capel, oedd Llywydd y noson.

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Hwn yw y dydd*

**Emyn 553 'Yr Iesu atgyfododd'**

**Darllen – Salm 118: 1–2, 14–24**

### Gweddi

Arglwydd, dymunwn ninnau heddiw gyhoeddi, gyda'th eglwys ym mhob oes ac ar bob cyfandir, fod yr Oen a gafodd ei ladd yn deilwng i agor llyfrau hanes, yn deilwng o bob mawl, yn deilwng i dderbyn gallu, doethineb a nerth a phob anrhydedd y gall angylion, ceriwbiaid, seraffiaid neu saint eu mynegi. Dyma'r dydd y gweithredodd yr Arglwydd. Gorfoleddwn a llawenhawn ynddo. Amen.

**Emyn 74 'Na'd im adeiladu'n ysgafn'**

**Darllen – Actau 10: 34–48 – Araith Pedr yn Nhŷ Cornelius**

Darllenwn yn Llyfr yr Actau hanesion cyffrous am gynulleidfaoedd Cristnogol yn cael eu sefydlu am y tro cyntaf. Darllenwn am bobl oedd yn ymgodymu â chwestiynau real am sut yr oeddynt i fyw eu ffydd newydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Sut fedrent gydnabod ei arglwyddiaeth pan oedd llywodraeth unbenaethol anoddefgar yn gwahardd hynny? Sut oeddynt, mewn byd amlddiwylliannol, amlgrefydd, amlffydd, i dystio i Iesu?

Yn yr hanes yma a ddigwyddodd, o bosib, rhwng tair a saith mlynedd wedi'r Atgyfodiad, clywn hanfod bywiol y math o neges a draddodwyd gan yr Eglwys Fore, yn yr achos hwn drwy Pedr, i'r byd. Darganfu'r eglwys nad sect Iddewig ydoedd, ond fod ganddi gomisiwn i ddwyn tystiolaeth i ogoniant ac urddas brenhinol Iesu Grist i'r byd yn grwn.

### Cefndir

Cafodd Pedr weledigaeth yn Jopa a'i heriodd i ystyried o'r newydd fod yr hyn y mae Duw wedi ei lanhau i'w groesawu. Mewn tref lan môr arall, yng Nghesarea, roedd Cornelius, Eidalwr, cenedl ddyn, yn cael ei baratoi i ymateb i ras Duw. Fel un oedd yn 'ofni Duw' ac yn ymddiddori yn y ffydd Iddewig byddai wedi dechrau deall hanfodion hanes Iddewig, ynghyd â gofynion y 'Gyfraith'. Efallai y byddai hyd yn oed wedi dechrau rhannu'r dyhead am Feseia o benodiad Duw, yr hwn y bu'r proffwydi'n cyfeirio ato.

### Cymdeithas yr Ysbryd Glân

Synnodd Pedr 'nad yw Duw yn dangos ffafriaeth' i hil na thras crefyddol (adn. 34) Yn wir, rhyfeddodd fod 'y sawl ym mhob cenedl sy'n ei ofni' ac sy'n cael ei drawsffurfio gan werthoedd newydd 'cyfiawnder' yn cael ei ystyried 'yn dderbyniol ganddo ef' (adn. 35).

Tanlinellwyd hyn pan ddisgynnodd yr Ysbryd Glân ar y gynulleidfa wrth iddynt 'wrando'r gair', sef neges ganolog y newyddion da yn Iesu Grist.

Ar ddydd y Pentecost ychydig flynyddoedd ynghynt, roedd y rhai a brofodd yr Ysbryd Glân wedi dechrau llefaru mewn tafodau a chyhoeddi mawrion weithredoedd Duw. Ychwanegwyd at yr egin eglwys filoedd o Iddewon o bob cwr o'r Ymerodraeth Rufeinig oedd yn y ddinas ar y pryd. Cyfrinach y chwyldro oedd grym argyhoeddiadol yr Ysbryd Glân.

Fel ar ddydd y Pentecost, dechreuodd y gynulleidfa hon, cynulleidfa oedd yn cynnwys cenedl ddynion, 'lefaru â thafodau' a 'mawrygu Duw'. Roedd yn syndod i'r 'credinwyr Iddewig ... fod rhodd yr Ysbryd Glân wedi ei thywallt hyd yn oed ar y Cenhedloedd' (adn. 46).

### Cymdeithas y Gair

'Y gair hwn' (adn. 37) oedd, ac yw, canolbwynt y newyddion da, a dyma sylfaen pob gwir eglwys. Cyflawniad o ddisgwyliadau'r ysgrythurau Iddewig oedd dyfodiad Iesu Grist. Dyma'r neges o newyddion da a gyhoeddwyd, yn y lle cyntaf, 'i blant Israel'.

Roedd Pedr am i'w wrandawyr sylweddoli mai Iesu Grist ei hunan oedd cyflawniad yr ysgrythurau a chanolbwynt y neges am dangnefedd.

Yn naturiol felly, er y gwyddai Pedr fod gan Cornelius a'i deulu ryw gymaint o wybodaeth am yr ysgrythurau Iddewig ac am weinidogaeth gyhoeddus Iesu, ni chymerodd ddyfnder eu gwybodaeth am Iesu yn ganiataol. Dewisodd olrhain gweinidogaeth gyhoeddus Iesu o'i fedydd hyd at ei groeshoeliad a'i atgyfodiad. Roedd ei weinidogaeth yn ei chyfanrwydd, meddai, yn tystio bod 'Duw gydag ef' (adn. 38).

### Her y neges

Ceisiwn ddychmygu am foment beth oedd yr her a wynebai Cornelius, y canwriad Rhufeinig oedd wedi tyngu llw o ufudd-dod hyd angau i Gesar, pan glywodd neges chwyldroadol Pedr. Onid oedd propaganda'r Ymerodraeth yn mynnu bod 'heddwch' neu 'dangnefedd' wedi dod i ardal pan oresgynnwyd y wlad gan luoedd Rhufeinig? 'Newyddion da' i'r rhai a goncwerwyd oedd dyfodiad y lluoedd a'u goresgynnodd, a'r 'newyddion da' oedd bod yr unben Cesar yn teyrnasu.

Mynnodd yr Eglwys Fore ddwyn y teitlau ymerodrol hyn oddi wrth Rufain, gan 'gyhoeddi Efengyl tangnefedd drwy Iesu Grist; ef yw Arglwydd pawb' (adn. 37). Ni chafodd Iesu ei ddewis gan na senedd na thrwy eneiniad dynol. Yn wir, 'eneiniodd Duw ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth' (adn. 38, 39). Ni ddaeth Iesu fel ymerawdwyr y ddaear i orchfygu drwy ormes; yn hytrach, 'aeth ef oddi amgylch gan wneud daioni ac iacháu pawb oedd dan ormes y diafol' (adn. 38). Ni chyhoeddwyd ei frenhiniaeth mewn parêd urddasol. Ni threchodd drwy ddifa'i elynion drwy drais. Yn hytrach, 'lladdasant ef, gan ei grogi ar bren' (adn. 39). Cyhoeddwyd grym effeithiol ei ddioddefaint ar y groes pan 'gyfododd Duw ef ar y trydydd dydd, a pheri iddo ddod yn weledig' (adn. 40). Medrai Cornelius a'i gyd-wrandawyr dderbyn geirwiredd dibynadwy'r dystiolaeth gan y bu ef, Pedr, ac eraill oedd wedi eu dewis gan Iesu, yn 'cydfwyta ac yn cydyfed gydag ef wedi iddo atgyfodi oddi wrth y meirw' (adn. 41).

Iesu yw'r un a gyflawnodd ddisgwyliadau'r ysgrythurau Iddewig. Iesu, trwy benodiad dwyfol, yw 'barnwr y byw a'r meirw' (adn. 42).

Comisiwn yr Eglwys oedd 'i bregethu i'r bobl, a thystiolaethu' i'r hwn y cawsent eu penodi ganddo i gyhoeddi 'y bydd pawb sy'n credu ynddo ef yn derbyn maddeuant pechodau trwy ei enw'.

O dan ddylanwad yr Ysbryd Glân cefnodd Cornelius ar ymerawdwr Rhufain; ildiodd i'r Arglwydd Iesu Grist, i frenhiniaeth fwy grasol, fwy grymus a mwy cyfiawn, mwy heddychlon nag a welwyd erioed ar wyneb y ddaear.

Pan ymbellhaodd yr Eglwys oddi wrth ei phriod neges cyflawnodd weithredoedd ysgeler sy'n parhau i staenio'i hanes. Pan gyhoeddwn, gyda hyder gostyngedig, y gobaith a osodwyd ynom, profwn ein bod yn rhan o symudiad grasol Duw, sy'n cynnwys gwahoddiad i bob un, ym mhob cenedl, ym mhob oes, i dderbyn maddeuant pechodau, a bywyd newydd drwy Iesu Grist.

### Gweddi

Arglwydd, bydded dy Ysbryd ar waith ynom, i'n deffro, ein cyffroi, a'n hargyhoeddi drachefn, o rymoedd anorchfygol yr Arglwydd Iesu Grist. Fe goncrodd angau drwy ei farwolaeth drosom, a chyhoeddodd ei fuddugoliaeth wrth atgyfodi drachefn o'r bedd yn fyw. Amen.

**Emyn 562 'Crist a orchfygodd'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru